



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhagnodi ym Maes Gofal Sylfaenol **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2013

Cyfeirnod y ddogfen: 465A2013

Statws yr adroddiad

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o waith sy'n cael ei gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff) yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os daw cais i law am wybodaeth y mae'r ddogfen hon yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn amlinellu'r ymarfer y disgwylir i awdurdodau lleol ei ddilyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru i infoofficer@wao.gov.uk

Roedd y tîm a gwblhaodd y gwaith yn cynwys Philip Jones a Deirdre Dwyer.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda tymor byr glir ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol ac mae ganddo drefniadau sydd wedi'u rheoli'n dda ar gyfer darparu cymorth rhagnodi, fodd bynnag, mae diffyg cynllun strategol tymor hwy ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cyfyngu'r potensial i ddefnyddio adnoddau er mwyn sicrhau cyfleoedd pendant i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd rhagnodi.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	5
Ein prif ganfyddiadau	6
Argymhellion	9

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio strategol 11

Er bod trefniadau cynllunio ar gyfer rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol wedi pennu agenda tymor byr a oedd yn cyfeirio'n benodol at gyddestun strategol ehangach y Bwrdd Iechyd, mae diffyg cynllun strategol tymor hwy yn cyfyngu'r potensial i wneud gwell defnydd o adnoddau er mwyn cyflawni'r cyfleoedd ar gyfer gwella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd rhagnodi sy'n amlwg yn bodoli

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb gyda gofal eilaidd 19

Mae'r trefniadau ar gyfer cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn effeithiol a chaiff timau lleol eu rheoli'n dda gyda rhywfaint o integreiddio mewn perthynas â'r staff. Mae'r cyffurlyfr lleol wedi'i ddiweddarau a'i gryfhau, ond mae cyfleoedd amlwg i gryfhau'r ffordd y rheolir y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau, ac i wella trefniadau monitro cydymffurfiaeth a rheoli meddyginiaethau rhwng y meysydd gofal eilaidd a gofal sylfaenol

Sicrhau trefniadau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus 29

Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn amrywio ym mhob un o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol, ac mae lle i wella ansawdd rhagnodi a'r defnydd darbodus o rai cyffuriau, yn arbennig mewn meysydd pwysig fel rhagnodi meddyginiaethau gwrthfactorol

Atodiadau

Crynodeb o arbedion posibl	44
Dadansoddiad cymharol o ragnodi gan y bwrdd iechyd yn unol â phenodau Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain	46
Dadansoddiad o ddangosyddion rhagnodi	55
Lleihau adweithiau niweidiol i gyffuriau	74
Rheoli gwastraff cyffuriau	77
Canfyddiadau ymarfer dyddiadur y tîm rhagnodi gofal sylfaenol	78
Negeseuon allweddol Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop ar gyfer rhagnodwyr gofal sylfaenol	86

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Rhagnodi cyffuriau yw'r math mwyaf cyffredin o driniaeth ym maes gofal sylfaenol ac mae'r GIG yng Nghymru yn cyhoeddi tua 75 miliwn o bresgripsiynau ym maes gofal sylfaenol bob blwyddyn sy'n werth oddeutu £600 o ran costau meddyginiaeth. Mae'r swm a gaiff ei wario y pen bob blwyddyn (£196) yn uwch nag yn Lloegr (£169) a'r Alban (£168). Yn ogystal, mae nifer yr eitemau a ragnodir y flwyddyn ar gyfer pob person gyda'r uchaf yn y DU, sef 24 o eitemau sydd wedi cynyddu o 15 o eitemau yn 2002.
2. Mae hyn yn erbyn cefndir o gynnydd yn y galw a chyfran uchel a chynyddol o oedolion dros 65 oed. Erbyn 2020 disgwylir i'r niferoedd gynyddu 24 y cant. Yn ogystal mae gan 82 y cant o'r gr p oedran hwn gyflwr cronig sy'n golygu cyfraddau rhagnodi uwch.
3. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn cwmpasu rhan o Dde Cymru sy'n gymysgedd o'r gwledig a'r trefol. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, cymunedol ac iechyd meddwl i dalgylch o 500,000 o bobl. Mae wedi trefnu ei wasanaethau ar ffurf nifer o gyfarwyddiaethau, ac mae wedi dwyn ei wasanaethau cymorth rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ynghyd yn y Gyfarwyddiaeth Integredig Rhagnodi a Rheoli Meddyginiaethau. Caiff y gyllideb ar gyfer gofal sylfaenol ei chadw ar wahân i'r gyllideb ar gyfer gofal eilaidd. Mae Cyfarwyddwr Clinigol y Gyfarwyddiaeth Integredig yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol. Caiff cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol ei drefnu'n dri thîm ar draws ardaloedd y Bwrdd Iechyd, sef Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.
4. Cynhaliwyd yr archwiliad annibynnol olaf o ragnodi ym maes gofal sylfaenol ar gyfer Cymru gyfan yn 1998. Felly mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys adolygiad o ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn ei raglen archwilio leol mewn byrddau iechyd yng Nghymru.
5. Edrychodd yr archwiliad hwn ar ddull y Bwrdd Iechyd o reoli rhagnodi ym maes gofal sylfaenol gan geisio ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r dull sy'n cael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd yn cefnogi rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus ym maes gofal sylfaenol?' Er mwyn ateb y cwestiwn hwn edrychwyd ar y canlynol:
 - a yw strategaeth ragnodi y maes gofal sylfaenol a chynlluniau cyflawni yn cefnogi rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus?
 - a yw'r strwythurau, y trefniadau rheoli a'r adnoddau ar waith i sicrhau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus?
 - a yw data rhagnodi ac alldroeon ariannol yn dangos bod dull gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn arwain at ragnodi diogel, effeithiol a darbodus ym maes gofal sylfaenol?

Ein prif ganfyddiadau

- Ein prif gasgliad yw bod y Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda tymor byr glir ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a bod ganddo drefniadau sydd wedi'u rheoli'n dda ar gyfer darparu cymorth rhagnodi, fodd bynnag, mae diffyg cynllun strategol tymor hwy ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cyfyngu'r potensial i ddefnyddio adnoddau er mwyn sicrhau cyfleoedd pendant i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd rhagnodi.
- Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sydd wedi arwain at y casgliad hwn.

Trefniadau cynllunio strategol

Er bod trefniadau cynllunio ar gyfer rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol wedi pennu agenda tymor byr a oedd yn cyfeirio'n benodol at gyd-destun strategol ehangach y Bwrdd Iechyd, mae diffyg cynllun strategol tymor hwy yn cyfyngu'r potensial i wneud gwell defnydd o adnoddau er mwyn cyflawni'r cyfleoedd ar gyfer gwella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd rhagnodi sy'n amlwg yn bodoli.

Pennu'r cyfeiriad strategol:

- Mae gan y Gyfarwyddiaeth Integredig Rhagnodi a Rheoli Meddyginiaethau gynllun blynyddol datblygedig ac integredig sy'n sail i gamau gweithredu o ran cyflawni cynllun arbedion ar gyfer y flwyddyn, a blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd. Er bod ad-drefnu ehangach wedi llesteirio'r potensial i ddatblygu cynllun strategol tymor hwy, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod y bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer y dyfodol, er mwyn helpu i gynnal gwelliannau rhagnodi rhesymegol.
- Mae gwasanaethau rheoli meddyginiaethau ar draws y meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd oll yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Integredig, sy'n cefnogi ac sy'n cyflawni dull mwy integredig o gynllunio gwasanaethau.
- Mae nifer o feysydd lle mae cynlluniau rheoli meddyginiaethau yn cefnogi nodau ac amcanion y Bwrdd Iechyd Cyfan; enghraifft benodol yw'r ffocws ar gymorth i'r henoed bregus, sy'n ffrwd waith sefydliadol allweddol.

Defnyddio tystiolaeth i ategu'r gwaith o ddatblygu strategaeth:

- Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng congfeini'r cynllun blynyddol ac anghenion iechyd y cleifion. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ffocws ar reoli'r nifer fawr o achosion o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a chlefyd cardiofasgwlaidd yn y gymuned leol, a'r rhai â phroblemau iechyd meddwl.
- Rhan allweddol o gynllunio lleol yw gweithredu canllawiau NICE a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG).

Dadansoddiad ariannol a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd ddata cynhwysfawr, cadarn ac amserol ar y defnydd o gyffuriau hyd lefel practisau sy'n cefnogi blaenoriaethu a chyflawni cynlluniau gweithredol.

Monitro canlyniadau, cyflawni a pherfformiad:

- Er bod gan y Cynllun Integredig drafft ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer 2013-14 saith ffrwd waith, bob un gyda champau penodol, nid oes gan lawer ohonynt dargedau y gellir eu mesur gyda cherrig milltir allweddol, sy'n atal mesurau llwyddiant rhag cael eu monitro'n effeithiol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chleifion:

- Prin yw'r dystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chleifion wrth ddatblygu cyfeiriad gwasanaethau yn y dyfodol.

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb gyda gofal eilaidd

Mae'r trefniadau ar gyfer cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn effeithiol a chaiff timau lleol eu rheoli'n dda gyda rhywfaint o integreiddio mewn perthynas â'r staff. Mae'r cyffurlyfr lleol wedi'i ddiweddarau a'i gryfhau, ond mae cyfleoedd amlwg i gryfhau'r ffordd y rheolir y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau, ac i wella trefniadau monitro cydymffurfiaeth a rheoli meddyginiaethau rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol.

Trefniadau rheoli:

- Mae rolau ac atebolrwydd rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol yn glir ac ymddengys eu bod yn gweithio'n dda.

Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol:

- Caiff cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol ei reoli'n dda drwy dri thîm sydd wedi'u hintegreiddio ar draws tair ardal y Bwrdd Iechyd. Mae gan bob tîm fferylllydd ardal arweiniol; sy'n uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr Clinigol.
- Mae lefel gyffredinol cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond ceir rhywfaint o amrywiad ar draws y tair ardal.
- Yn gyffredinol, mae fferyllwyr wedi aros yn eu hardal wreiddiol, ac mae hyn wedi sicrhau parhad y gwasanaeth yn y tymor byr; nawr, oherwydd y galwadau ar y gwasanaeth, mae mwy ohonynt yn gweithio ar draws yr ardaloedd.
- Mae gan y tîm rhagnodi fynediad i wybodaeth rhagnodi gynhwysfawr a manwl sydd nid yn unig yn sail i'r cynllun gwaith blynyddol ond sydd hefyd yn cael ei defnyddio'n effeithiol i dargedu ymyriadau ac mae'n amlgu practisau lle y gellid gwella rhagnodi rhesymegol.
- Yn wahanol i rai sefydliadau eraill, nid oes gan y Bwrdd Iechyd wefan rheoli meddyginiaethau eto, sydd ar gael i'r gymuned ehangach o ragnodwyr a'r cyhoedd.
- Mae'r tîm cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn awyddus i ddarparu cyfleoedd datblygu ym maes rheoli rhagnodi i feddygon teulu a'u staff. Mae nifer o gyfarfodydd rheolaidd a chyfleoedd hyfforddi ar gael i help i ddarparu'r cymorth hwn.

Cyffurlyfr y Bwrdd Iechyd:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd un cyffurlyfr lleol y mae'n ei adolygu'n barhaus. Yn ddiweddar mae wedi gwneud gwaith penodol i ddiweddarau a chryfhau'r cyffurlyfr ar y cyd â chyflwyno rhyngwyneb meddalwedd newydd ar gyfer y cyffurlyfr ar y fewnwyd.
- Cydnabyddir bod monitro cydymffurfiaeth â chyffurlyfr yn her, ac er bod enghreifftiau o arfer da hwnt ac yma, cydnabyddir ei fod yn faes y mae angen ei gryfhau ymhellach ar draws y meysydd gofal eilaidd a gofal sylfaenol.

Grŵp cyffuriau a thriniaethau therapiwtig BIP ABM:

- Mae'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau yn integreiddio'r hyn a arferai fod yn grwpiau rheoli meddyginiaethau gweithredol a strategol ar wahân. Fe'i cefnogir gan nifer o is-grwpiau, gan gynnwys y grŵp cyffurlyfr a'r grŵp cynghori ar rhagnodi mewn gofal sylfaenol. Adeg ein gwaith maes cydnabuwyd bod angen gwella'r ffordd y rheolir cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau.

Gweithio ar y rhyngwyneb:

- Mae fferyllwyr effeithiolrwydd clinigol wedi gweithio gyda chlinigwyr o'r meysydd gofal eilaidd a sylfaenol i ddatblygu ystod o brotocolau ar y cyd sydd ar gael ar borth meddygon teulu'r Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd bod ansawdd y crynodebau rhyddhau cleifion wedi bod yn gwella ond dywedodd meddygon teulu wrthym fod ansawdd y wybodaeth ryddhau'n wael ar brydiau.

Sicrhau trefniadau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus

Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn amrywio ym mhob un o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol, ac mae lle i wella ansawdd rhagnodi a'r defnydd darbodus o rai cyffuriau, yn arbennig mewn meysydd pwysig fel rhagnodi meddyginiaethau gwrthfacterol.

Pennu cyllideb a pherfformiad ariannol:

- Caiff y cyllidebau rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd eu cadw ar wahân. Mae gan bob ardal gofal sylfaenol, yn ogystal â phob cyfarwyddiaeth gofal eilaidd, gyllideb gyffuriau ar wahân. Dywedir bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda. Caiff y gwaith cyflawni ei fonitro a'i adrodd i'r Bwrdd drwy'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau.

Gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol:

- Mae gwariant y Bwrdd Iechyd yn fwy na'r cyfartaledd mewn rhai o'r meysydd a ddiffinnir gan Gyffurlyfr Cenedlaethol Prydain, ond ymddengys fod y costau'n rhesymol, o gymharu â byrddau iechyd eraill. Fodd bynnag, y bwrdd iechyd sydd â'r lefel ragnodi uchaf yng Nghymru o ran cyffuriau sy'n ymwneud â maeth uchaf. Er y gellir cyfiawnhau'r lefel hon o ragnodi, mae angen deall y rhesymau dros y gwariant hwn.

Dangosyddion rhagnodi effeithiol:

- Rydym wedi amcangyfrif bod potensial i sicrhau rhagor o arbedion heb effeithio ar ofal cleifion (hyd at uchafswm o £1.6 miliwn). Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth asesu i ba raddau y gellir cyflawni'r cyfleoedd a amlygir, drwy dynnu ar brofiad ac amgylchiadau lleol, ac yna blaenoriaethu ei gwaith yn unol â hynny.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o'r byrddau sy'n perfformio orau o ran cyfraddau rhagnodi generig, ond rydym yn amcangyfrif bod ganddo'r potensial i ryddhau arbedion o £367,000 drwy wella ei berfformiad ymhellach.
- Mae swm y gorchuddion gwrthficrobaidd a ragnodir gan feddygon teulu, fel cyfran o'r holl orchuddion, yn gymharol uchel o gymharu â byrddau iechyd eraill a cheir potensial i arbed £91,000 os bydd ei berfformiad yn cyfateb i'r perfformiad gorau.

Dangosyddion rhagnodi cenedlaethol

- Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn amrywio ar draws yr 14 o ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol.
- Y Bwrdd Iechyd sydd â'r cyfraddau rhagnodi uchaf ond un ar gyfer atalyddion pwmp proton cost isel a chanran yr atalyddion ACE a ragnodir ar gyfer cyffuriau sy'n effeithio ar y systemau renin-angiotensin, sy'n dda.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi cyfran uchel o statinau cost isel, sy'n dda a phe bai'r gyfradd ragnodi'r cyfateb i'r meddygon teulu sy'n perfformio orau byddai cyfle o hyd i sicrhau arbedion ychwanegol o £281,000.
- Mae meddygon teulu'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi'r ganran isaf o Ibuprofen a Naproxen mewn perthynas â rhagnodi cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd sy'n awgrymu bod angen gwneud llawer mwy i wella rhagnodi rhesymegol yn hyn o beth.

Adroddiadau am adweithiau niweidiol i gyffuriau:

- Prin yw'r dystiolaeth o adroddiadau cyson a chadarn am adwaith niweidiol i gyffuriau a digwyddiadau'n ymwneud â meddyginiaeth.

Gwastraff cyffuriau:

- Cydnabyddir bod gwastraff cyffuriau yn fater strategol pwysig, ond yn gyffredinol cydnabyddir na fu'n bosibl cael amcangyfrif cywir o gyfanswm y meddyginiaethau a wastreffir.

Argymhellion

Trefniadau Cynllunio Strategol

- A1 Datblygu a gweithredu fframwaith strategol tymor hwy clir ar gyfer rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol, sy'n amlinellu:
- gweledigaeth ac amcanion tymor canolig i'r tymor hir ar gyfer darparu gwasanaeth;
 - y cyfeiriad o ran integreiddio ymhellach y gwasanaethau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau;
 - amcanion y gweithlu;
 - cysylltiadau ag amcanion strategol ehangach y Bwrdd Iechyd;
 - cysylltiadau â pholisïau a mentrau cenedlaethol fel 1000 o Fywydau a fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol; a
 - chanlyniadau clir ac amcanion CAMPUS.
- A2 Sefydlu cynlluniau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau clir ar gyfer y rhyngwyneb rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol er mwyn:
- atgyfnerthu dulliau i gefnogi meddygon teulu wrth iddynt ymateb i argymhellion gofal eilaidd, gan gynnwys herio clinigwyr gofal eilaidd yn gadarn;
 - codi ymwybyddiaeth ymhellach ymysg clinigwyr gofal eilaidd o gost bosibl ac effaith ehangach eu hargymhellion rhagnodi ar ofal sylfaenol;
 - gwella ansawdd gohebiaeth sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion;
 - sicrhau bod materion yn ymwneud â rhagnodi a rheoli meddyginiaethau yn cael eu cynnwys o'r cychwyn mewn mentrau ailddylunio gwasanaeth, datblygu llwybrau gofal, a chyfleoedd eraill tebyg; a
 - nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd i staff rheoli meddyginiaethau, a chlinigwyr yn fwy cyffredinol, weithio ar draws y rhyngwyneb i helpu i atgyfnerthu trefniadau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau effeithiol rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol.
- A3 Sicrhau bod ymgysylltu'n ystyrlon â chleifion yn rhan annatod o waith datblygu gwasanaethau.
- A4 Sicrhau bod y Bwrdd yn cael gweld dangosyddion perfformiad ar ragnodi mewn gofal sylfaenol a gwybodaeth fonitro arall yn rheolaidd.

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb gyda gofal eilaidd

- A5 Adolygu'r trefniadau ar gyfer y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau i sicrhau y gellir mynd i'r afael yn effeithiol â materion strategol a gweithredol.
- A6 Sicrhau bod adnoddau cymorth rhagnodi yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau drwy:
- nodi cyfleoedd i gylchdroi staff drwy dimau practisau meddygon teulu; a
 - datblygu potensial i gynyddu cyfran y gwaith sy'n cael ei wneud yn uniongyrchol â rhagnodwyr unigol a phractisau cyffredinol.
- A7 Cryfhau'r trefniadau mewn perthynas â'r cyffurlyfr lleol drwy sicrhau bod y cyffurlyfr ar gael ar y rhyngwyneb er mwyn rhoi mynediad i rhagnodwyr a chleifion ac ar adegau pan na fydd mynediad dros y fewnwyd yn bosibl.
- A8 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r cyffurlyfr yn barhaus er mwyn galluogi achosion o rhagnodi nad ydynt yn dilyn y cyffurlyfr i gael eu herio'n gadarn ac yn briodol ac i ddangos patrymau rhagnodi amhriodol.
- A9 Adolygu cysondeb cyd-brotocolau gofal lleol, a chydymffurfiaeth â hwy.
- A10 Gwella cynnwys gwybodaeth ryddhau.

Sicrhau trefniadau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus

- A11 Ymdrin â phob un o'r cyfleoedd penodol a amlygwyd yn yr adroddiad hwn i wella ansawdd, diogelwch a darbodusrwydd rhagnodi mewn gofal sylfaenol.
- A12 Adolygu'r rhesymau dros y swm sylweddol o rhagnodi cyffuriau'n ymwneud â maeth a gwaed gan feddygon teulu yn lleol.
- A13 Cryfhau'r dull presennol o adrodd ar adweithiau niweidiol i gyffuriau fel rhan o ddatblygu'r strategaeth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol.
- A14 Datblygu data, trefniadau monitro ac adrodd mewn perthynas â gwastraff cyffuriau.
-

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio strategol

8. Er bod trefniadau cynllunio ar gyfer rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol wedi pennu agenda tymor byr a oedd yn cyfeirio'n benodol at gyd-destun strategol ehangach y Bwrdd Iechyd, mae diffyg cynllun strategol tymor hwy yn cyfyngu'r potensial i wneud gwell defnydd o adnoddau er mwyn cyflawni'r cyfleoedd ar gyfer gwella o ran diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd rhagnodi sy'n amlwg yn bodoli. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

Pennu'r cyfeiriad strategol:

- Mae gan y Gyfarwyddiaeth Integredig Rhagnodi a Rheoli Meddyginiaethau gynllun blynyddol datblygedig ac integredig sy'n sail i gamau gweithredu ar gyfer cyflawni cynllun arbedion ar gyfer y flwyddyn, a blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd.
Er bod ad-drefnu ehangach wedi llesteirio'r potensial i ddatblygu cynllun strategol tymor hwy yn y gorffennol, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod y bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer y dyfodol, er mwyn helpu i gynnal gwelliannau rhagnodi rhesymegol.
- Mae gwasanaethau rheoli meddyginiaethau ar draws y meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd oll yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Integredig, sy'n cefnogi ac sy'n cyflawni dull mwy integredig o gynllunio gwasanaethau.
- Mae nifer o feysydd lle mae cynlluniau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau yn cefnogi nodau ac amcanion y Bwrdd Iechyd cyfan; enghraifft benodol yw'r ffocws ar gymorth i'r henoed bregus, sy'n ffrwd waith sefydliadol allweddol.

Defnyddio tystiolaeth i ategu'r gwaith o ddatblygu strategaeth:

- Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng congffeini'r cynllun blynyddol ac anghenion iechyd y cleifion. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ffocws ar reoli'r nifer fawr o achosion o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a chlefyd cardiofasgwlaidd yn y gymuned leol, a'r rhai â phroblemau iechyd meddwl.
- Rhan allweddol o gynllunio lleol yw gweithredu canllawiau NICE a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG).

Dadansoddiad ariannol a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd ddata cynhwysfawr, cadarn ac amserol ar y defnydd o gyffuriau hyd lefel practisau sy'n cefnogi blaenoriaethu a chyflawni cynlluniau gweithredol.

Monitro canlyniadau, cyflawni a pherfformiad:

- Er bod gan y Cynllun Integredig drafft ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau 2013-14 saith ffrwd waith, bob un gyda chamau penodol, nid oes gan lawer ohonynt dargedau y gellir eu mesur gyda cherrig milltir allweddol, sy'n atal mesurau llwyddiant rhag cael eu monitro'n effeithiol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chleifion:

- Prin yw'r dystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chleifion wrth ddatblygu cyfeiriad gwasanaethau yn y dyfodol.

9. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n ategu'r casgliad hwn.

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Pennu'r cyfeiriad strategol		
<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ragnodi gyfoes sy'n cwmpasu cyfnod penodol o amser (er enghraifft, tair i bum mlynedd), a chynlluniau cyflawni cysylltiedig i ategu'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol gyda chamau wedi'u blaenoriaethu.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae gan y Gyfarwyddiaeth Integredig gynllun blynyddol ar waith mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd sy'n cynnwys cynllun arbedion ar gyfer y flwyddyn, ac mae cyswllt rhyngddo a blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol hefyd yn canolbwyntio ar leihau'r ffactorau ehangach sy'n arwain at salwch.</p> <p>Adeg ein gwaith maes, roedd y tîm rheoli meddyginiaethau wedi datblygu drafft cyntaf o gynllun blynyddol ar gyfer 2013-14 gyda meysydd blaenoriaeth allweddol yn cynnwys yr henoed eiddil yn y gymuned; gwasanaethau iechyd meddwl ac ystafell aseptic, yn ogystal â'r gwaith sydd wedi'i anelu at leihau'r defnydd o gyffuriau penodol a hyrwyddo'r defnydd o gyffuriau eraill.</p> <p>Mae'r cynllun blynyddol cyfredol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer y tymor byr, ac mae hynny'n ddefnyddiol. Mae hyn wedi'i gynllunio i gyd-fynd â phroses gynllunio flynyddol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae angen datblygu cynllun strategol tymor hwy i lywio'r gwasanaethau hyn dros gyfnod o rhwng tair a phum mlynedd. Byddai hyn yn rhoi cyfle i bennu gweledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad ac anghenion y Gyfarwyddiaeth ar gyfer y dyfodol ac i gryfhau ymhellach y cysylltiadau â'r strategaeth gorfforaethol. Er bod ad-drefnu gwasanaethau'n sylweddol ar lefel y Bwrdd Iechyd wedi cyfyngu'r potensial ar gyfer hyn hyd yma, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod yr angen i greu cynllun strategol tymor hwy gyda thargedau mesuradwy a cherrig milltir allweddol. Mae rhai newidiadau eisoes yn digwydd yn sgil datblygu blaenstrategaeth tair blynedd ar gyfer sganio'r gorwel.</p>

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Pennu'r cyfeiriad strategol		
<p>Dylai dull strategol y Bwrdd Iechyd o ragnodi ym maes gofal sylfaenol gael ei integreiddio gyda rheoli meddyginiaethau gofal eilaidd. Yn niffyg strategaeth integredig dylai'r strategaeth gofal sylfaenol ddarparu dull sy'n gyson â'r strategaeth gyfatebol mewn gofal eilaidd.</p>	<p>✓</p>	<p>Mae gwasanaethau rheoli meddyginiaethau ar draws y meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd oll yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Integredig, ond mae'r cyllidebau ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn cael eu cadw ar wahân. Mae'r trefniant integredig hwn, yn rhannol, wedi'i fwriadu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynllunio cydlynus ar draws gwahanol rannau o'r gwasanaeth. Fel y soniwyd uchod, caiff hyn ei adlewyrchu mewn cynllun blynyddol integredig. Mae Cyfarwyddwr Clinigol y Gyfarwyddiaeth Integredig wedi bod yn gweithio i sicrhau bod materion yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau yn cael eu hystyried yn rhan o'r ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â strategaeth y Bwrdd Iechyd, Newid er Gwell (2010 i 2015), drwy ymgysylltu'n gynnar. Yn benodol, y ffrwd waith drawsbynciol mewn perthynas â'r henoed eiddil.</p>
<p>Dylai fod cyswllt rhwng y dull strategol ac amcanion strategol eraill y Bwrdd Iechyd, er enghraifft, ei Strategaeth Iechyd Cyhoeddus.</p>	<p>✓</p>	<p>Mae sawl maes lle mae cynlluniau'r tîm rhagnodi yn cefnogi nodau ac amcanion y Bwrdd Iechyd cyfan.</p> <p>Un enghraifft yw gwaith y tîm rheoli meddyginiaethau wrth gefnogi'r henoed eiddil, sy'n ffrwd waith allweddol i'r Bwrdd Iechyd, ac yn un o flaenoriaethau allweddol cynllun blynyddol y Gyfarwyddiaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn mae'r tîm rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol yn gweithio'n agos gyda fferyllwyr cymunedol i ddatblygu canllawiau ar bolyfferylliaeth¹. Gwnaethpwyd nifer o apwyntiadau i dreialu swyddi cymorth gan gynnwys technegwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sy'n ymweld â chleifion yn yr ysbyty ac yn eu cartrefi; • sy'n gweithio gyda gofalwyr, gyda gwasanaethau cymdeithasol a'r sector preifat; • sy'n mynd i gartrefi gofal i asesu graddau polyfferylliaeth ac i hyrwyddo technegau ar gyfer rheoli polyfferylliaeth yn effeithiol.

¹ Polyfferylliaeth yw'r defnydd o nifer o feddyginiaethau a/neu weinyddu mwy o feddyginiaethau na'r hyn a nodir yn glinigol, sy'n arwain at ddefnydd diangen o gyffuriau, ac mae hyn yn gyffredin ymysg yr henoed.

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Pennu'r cyfeiriad strategol		
<p>Dylai fod cyswllt rhwng y dull strategol ac amcanion strategol eraill y Bwrdd Iechyd, er enghraifft, ei Strategaeth Iechyd Cyhoeddus.</p>	<p>✓</p>	<p>Rhan allweddol o'r her ar gyfer y dyfodol fydd sicrhau, lle bynnag y bydd gwaith peilot yn llwyddiannus, y gall trefniadau cynllunio'r gweithlu alluogi'r modelau gweithio newydd i gael eu cyflwyno'n ehangach.</p> <p>Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol hefyd wedi sefydlu clinigau Warfarin yn y gymuned gyda chanlyniadau cadarnhaol, a cheir cynlluniau eraill i ddatblygu clinigau methiant y galon. Yn ogystal â chefnogi gwell gofal mae gan y cynlluniau hyn y potensial i helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.</p> <p>Yn ogystal â'r cynlluniau hyn, mae cynlluniau'n cael eu datblygu i wella'r gwaith o reoli clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.</p>
<p>Mae'r trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael ag ad-drefnu'r gwasanaeth, gan gynnwys datblygiadau'r gweithlu a hyfforddiant.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae'r cynllun blynyddol yn cydnabod yr angen i gynnwys hyblygrwydd yn y gweithlu ac mae'n cyfeirio at y ffaith bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygu swyddi, a lle y bo'n bosibl cynyddu swyddi gradd iau; • ailfodelu'r gweithlu drwy gymysgu sgiliau, datblygu strwythur y gyfarwyddiaeth, e.e. rheolwyr anghlinigol, gweithlu amlddisgyblaeth; A • defnyddio'r banc fferyllwyr a thechnegwyr i leoli staff mewn meysydd sydd o dan bwysau oherwydd mamolaeth a salwch. <p>Er mwyn sicrhau y gall y gweithlu fod yn effeithiol ar draws y rhyngwyneb, mae fferyllwyr wedi cael eu cysylltu â phob rhwydwaith cymunedol, ac mae data rhagnodi ar lefel rhwydwaith yn cael ei gynhyrchu i'w ddefnyddio mewn lleoliadau i ddarparu cymariaethau lleol fel sail ar gyfer annog newid.</p> <p>Mae cymorth ar gyfer prosiectau rhwydwaith yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • clinigau allgymorth fferyllwyr anfeddygol ar gyfer clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe; • clinig fferyllwyr anfeddygol Cymhareb Ryngwladol wedi'i Normaleiddio yn Abertawe; a • chymorth fferyllwyr ar gyfer clinigau methiant y galon yn rhwydwaith Castell-nedd.

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Pennu'r cyfeiriad strategol		
<p>Mae'r trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael ag ad-drefnu'r gwasanaeth, gan gynnwys datblygiadau'r gweithlu a hyfforddiant.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Cydnabuwyd y bydd newidiadau yn y proffill staff yn dibynnu ar leoliad gwasanaethau clinigol yn dilyn ad-drefnu'r gwasanaeth.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod bod angen datblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y tymor hwy i helpu i arwain y gwaith cynllunio y tu hwnt i'r ffocws presennol ar y flwyddyn gyfredol.</p>
<p>Mae'r trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael â'r defnydd effeithiol o'r contract fferylliaeth gymunedol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft, gwasanaethau ychwanegol lleol.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae penodi arweinydd proffesiynol o'r tîm integredig rhagnodi gofal sylfaenol yn rhoi ffocws ar gyfer gwaith gyda fferyllwyr cymunedol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol dros amser at ddatblygu Gwasanaethau Ychwanegol Cenedlaethol, ac mewn perthynas â'r Contract Fferylliaeth Gymunedol yn fwy cyffredinol.</p> <p>Mae gwaith gyda fferyllwyr cymunedol lleol i reoli presgripsiynau amlroddadwy yn fwy effeithiol yn ffocws lleol allweddol o ran lleihau gwastraff rhagnodi.</p> <p>Fodd bynnag, ystyrir bod y ffocws ar eitemau yn y Contract Fferylliaeth Gymunedol cyfredol yn llesteirio gwaith effeithiol i fynd i'r afael â gwastraff a pholyfferylliaeth.</p> <p>Ystyrir bod Adolygiadau o Ddefnyddwyr Meddyginiaethau wedi cynnig gwerth cyfyngedig o gymharu â'r costau cysylltiedig.</p>
<p>Mae'r strategaeth yn ymdrin â lleihau gwastraff, er enghraifft, drwy hyrwyddo adolygiadau o feddyginiaeth practis, rheoli presgripsiynau amlrodadwy a gweithio gyda fferyllwyr cymunedol.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth cleifion a'r cyhoedd o'r gwastraff sylweddol mewn perthynas â meddyginiaethau a ragnodir. Yn ogystal, mae gan y Gyfarwyddiaeth fentrau ym maes gofal sylfaenol i wella trefniadau rheoli meddyginiaethau ac atal patrymau rhagnodi sy'n cynyddu gwastraff. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynnal adolygiadau o feddyginiaethau mewn practisau gofal sylfaenol a gweithredu cynlluniau rheoli presgripsiynau amlroddadwy.</p>

Defnyddio tystiolaeth i ategu'r gwaith o ddatblygu strategaeth

Pennu'r cyfeiriad strategol

Caiff y gwaith datblygu strategaeth ei lywio gan ddadansoddiad clir o ffactorau sy'n dylanwadu ar arferion rhagnodi.



Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol yn parhau i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng conglfeini'r cynllun blynyddol ac anghenion iechyd y cleifion. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ffocws ar reoli'r nifer fawr o achosion o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a chlefyd clefyd cardiofasgwlaidd yn y gymuned leol, a'r rhai â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth yn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol ynghylch rheoli meddyginiaethau ac yn cefnogi'r gwaith hwnnw, gan gynnwys canllawiau NICE ac AWMSG ac effaith cyffuriau newydd a newid y defnydd o gyffuriau presennol.



Gan fod cynllunio'n canolbwyntio ar leihau'r defnydd o gyffuriau penodol. Er mwyn cael ffocws cryfach ar fonitro yn y maes hwn, symudwyd y cyfrifoldeb dros reoli cyffuriau NICE, AWMSG a chyffuriau cost uchel i'r Gyfarwyddiaeth Integredig yn 2012-13. Gweithredwyd meini prawf newydd ar gyfer ychwanegu a monitro cyffuriau ar y rhestr hefyd.

Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth yn cyd-fynd â chanllawiau 1000 o fywydau a'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol.



Mae amcanion y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13 yn cynnwys cynlluniau i leihau heintiau a geir yn yr ysbyty i sero, ac maent hefyd yn cyfeirio at y fenter 1000 o Fwydau.

Paratowyd y strategaeth gyda chyfraniad gan randdeiliaid allweddol fel meddygon teulu, meddygon ymgynghorol mewn ysbytai a chynrychiolwyr cleifion.



Mae'r gwaith cynllunio'n seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a strategaeth y Bwrdd Iechyd. Ar ôl i'r drafft gael ei lunio, caiff ei rannu â rhanddeiliaid mewnol yn y Bwrdd Rheoli Meddyginiaethau ac yng nghyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth i sicrhau ei fod yn cysylltu â chynlluniau eraill y gyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth glir a chyson o ymgysylltu cynhwysfawr â chynrychiolwyr cleifion.

Dadansoddiad ariannol a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth

Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol ac mae'n seiliedig ar y canlynol:	✓	Mae gan y Bwrdd Iechyd ddata cadarn ac amserol ar y defnydd o gyffuriau hyd lefel practisau. Mae'r trefniadau hyn yn ategu gwaith monitro effeithiol o wariant a'r defnydd o gyffuriau.
<ul style="list-style-type: none"> Rhagnodi generig a'r defnydd o gyffuriau brand. 	✓/x	Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol wedi bod yn annog meddygon teulu i ddefnyddio cyffuriau generig ers peth amser. Mae'r tîm o'r farn bod y rhan fwyaf o feddygon teulu eisoes yn defnyddio cyffuriau generig yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. O ganlyniad, mae'r tîm wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar feysydd eraill o ymarfer rhagnodi. Awgryma ein dadansoddiad o ragnodi generig yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn fod cyfleoedd yn parhau i fodoli yn y tymor hwy, i wella ansawdd y gwaith rhagnodi hwn.
<ul style="list-style-type: none"> Trefniadau wrth gefn ar gyfer datblygiadau heb eu cynllunio. 	✓	<p>Mae cynllunio ar gyfer argyfyngau yn digwydd mewn sawl ffordd:</p> <ul style="list-style-type: none"> drwy fwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau e.e. rheoli'r effaith ariannol ac ansoddol yn sgil materion yn gysylltiedig â'r ffaith nad oes stoc rhatach ar gael (NCSO). sganio'r gorwel yn gyffredinol yn rheolaidd er mwyn adnabod problemau posibl ar gam cynnar. cynllunio sydd wedi digwydd cyn i batent cyffuriau ddod i ben. drwy ymgysylltu'n effeithiol ac yn ehangach â staff y bwrdd iechyd i reoli canlyniadau materion heb eu cynllunio.

Monitro canlyniadau, cyflawniad a pherfformiad		
Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Ceir nodau, canlyniadau ac amcanion CAMPUS clir i fesur perfformiad.	✓	Mae'r Cynllun Integredig drafft ar gyfer 2012-13 yn cynnwys saith ffrwd waith. Nodwyd nifer o gamau gweithredu ar gyfer pob ffrwd waith. Adeg ein gwaith maes, dim ond un flaenoriaeth, ar gyfer gwaith mewn perthynas â'r henoed eiddil, oedd â thargedau mesuradwy a cherrig milltir allweddol. Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth wedyn sicrhau dull tebyg ym mhob maes sy'n flaenoriaeth. Sefydlwyd targedau mesuradwy clir ar lefel genedlaethol ar gyfer y defnydd lleol o grwpiau cyffuriau y dangosydd rhagnodi cenedlaethol. Adroddir ar gynnydd lleol ar y targedau hyn bob chwarter.
Mae'r fframwaith ar gyfer monitro'r hyn a gyflawnir yn cynnwys adrodd i'r Bwrdd a phwyllgorau priodol.	✓	Mae Bwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau yn cwrrd bob deufis a dyma'r fforwm gweithredol lle y datblygir rhaglenni gwaith a lle y cânt eu monitro. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i Fwrdd y Gyfarwyddiaeth sy'n cyfarfod yn fisol. Ochr yn ochr â hyn, mae arweinydd llywodraethu'r gyfarwyddiaeth yn aelod o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sydd yn ei dro yn adrodd i'r Bwrdd. Adeg ein gwaith maes, roedd y Gyfarwyddiaeth yn cyflwyno papur i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, rhywbeth nad oedd wedi digwydd o'r blaen. Mae'r Cyfarwyddwr Clinigol yn cydnabod y bydd cryfhau'r trefniadau adrodd hyn yn gwella'r trefniadau llywodraethu ac yn codi ymwybyddiaeth o waith y Gyfarwyddiaeth a'r heriau a wynebir ganddi. Rhoddir adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gyfarwyddiaeth i'r Bwrdd Gweithredol fel rhan o bapur cyllid y Bwrdd Iechyd. Mae tîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn cyfarfod bob chwarter â'r Tîm Gweithredol i drafod dangosyddion perfformiad.

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb gyda gofal eilaidd

10. Mae'r trefniadau ar gyfer cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn effeithiol a chaiff timau lleol eu rheoli'n dda gyda rhywfaint o integreiddio mewn perthynas â'r staff. Mae'r cyffurlyfr lleol wedi'i ddiweddarau a'i gryfhau, ond mae cyfleoedd amlwg i gryfhau'r ffordd y rheolir y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau, ac i wella trefniadau monitro cydymffurfiaeth a rheoli meddyginiaethau rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol.

Trefniadau rheoli:

- Mae rolau ac atebolrwydd rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol yn glir ac ymddengys eu bod yn gweithio'n dda.

Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol:

- Caiff cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol ei reoli'n dda drwy dri thîm sydd wedi'u hintegreiddio ar draws tair ardal y Bwrdd Iechyd. Mae gan bob tîm fferylllydd ardal arweiniol; sy'n uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr Clinigol.
- Mae lefel gyffredinol cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond ceir rhywfaint o amrywiad ar draws y tair ardal.
- Yn gyffredinol, mae fferyllwyr wedi aros yn eu hardal wreiddiol, ac mae hyn wedi sicrhau parhad y gwasanaeth yn y tymor byr; nawr, oherwydd y galwadau ar y gwasanaeth, mae mwy ohonynt yn gweithio ar draws yr ardaloedd.
- Mae gan y tîm rhagnodi fynediad i wybodaeth rhagnodi gynhwysfawr a manwl sydd nid yn unig yn hysbysu'r cynllun gwaith blynyddol ond sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu ymyriadau ac mae'n amlygu practisau lle y gellir gwella rhagnodi rhesymegol.
- Yn wahanol i rai sefydliadau eraill, nid oes gan y Bwrdd Iechyd wefan rheoli meddyginiaethau eto, sydd ar gael i'r gymuned ehangach o ragnodwyr a'r cyhoedd.
- Mae'r tîm cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn awyddus i ddarparu cyfleoedd datblygu ym maes rheoli rhagnodi i feddygon teulu a'u staff. Mae nifer o gyfarfodydd rheolaidd a chyfleoedd hyfforddi ar gael i help i ddarparu'r cymorth hwn.

Cyffurlyfr y Bwrdd Iechyd:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd un cyffurlyfr lleol y mae'n ei adolygu'n barhaus. Yn ddiweddar mae wedi gwneud gwaith penodol i ddiweddarau a chryfhau'r cyffurlyfr ar y cyd â chyflwyno rhyngwyneb meddalwedd newydd ar gyfer y cyffurlyfr ar y fewnrwyd.
- Cydnabyddir bod monitro cydymffurfiaeth â chyffurlyfr yn her, ac er bod enghreifftiau o arfer da hwnt ac yma, cydnabyddir ei fod yn faes y mae angen ei gryfhau ymhellach ar draws y meysydd gofal eilaidd a gofal sylfaenol.

Grŵp cyffuriau a thriniaethau therapiwtig BIP ABM:

- Mae'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau yn integreiddio'r hyn a arferai fod yn grwpiau gweithredol a rheoli meddyginiaethau strategol ar wahân. Fe'i cefnogir gan nifer o is-grwpiau, gan gynnwys y grŵp cyffurlyfr a'r grŵp cynghori ar ragnodi mewn gofal sylfaenol. Adeg ein gwaith maes cydnabuwyd bod angen gwella'r ffordd y rheolir cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau.

Gweithio ar y rhyngwyneb:

- Mae fferyllwyr effeithiolrwydd clinigol wedi gweithio gyda chlinigwyr o'r meysydd gofal eilaidd a sylfaenol i ddatblygu ystod o brotocolau ar y cyd sydd ar gael ar borth meddygon teulu'r Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd bod ansawdd y crynodebau rhyddhau cleifion wedi bod yn gwella ond dywedodd meddygon teulu wrthym fod ansawdd y wybodaeth ryddhau'n wael ar brydiau.
- Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ein canfyddiadau sy'n ategu'r casgliadau.

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Trefniadau rheoli		
Ceir atebolrwydd profesiynol a rheoli clir ar gyfer yr holl waith rheoli meddyginiaethau a rhagnodi gan feddygon teulu. Dylai hyn gynnwys arweinydd gweithredol ar lefel y Bwrdd.	✓	<p>Mae rolau ac atebolrwydd rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol yn glir ac ymddengys eu bod yn gweithio'n dda.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth Integredig ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau yn gyfarwyddiaeth annibynnol sy'n cwmpasu rhagnodi a rheoli meddyginiaethau mewn gofal sylfaenol, eilaidd ac iechyd meddwl.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Integredig yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol, ac mae hefyd wedi'i enwi'n Fferylllydd Arolygol, gyda chyfrifoldebau cyfreithiol cysylltiedig, ar gyfer y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Roedd y Grŵp Gweithredol Rheoli Meddyginiaethau (MMOG) wrthi'n cael ei adolygu adeg ein gwaith maes. Mae'r grŵp yn cwmpasu cynllunio gweithredol a strategol, yr oedd fforymau ar wahân yn arfer ymdrin â hwy yn flaenorol. Yn sesiwn y Grŵp Gweithredol Rheoli Meddyginiaethau a fynychwyd gennym fel rhan o'n gwaith maes, nododd Cyfarwyddwr Clinigol y Gyfarwyddiaeth Integredig ei bod wedi bod yn anodd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng materion gweithredol a strategol yn ystod y cyfarfodydd. Y bwriad oedd adolygu'r trefniadau i wella effeithiolrwydd ar gyfer y dyfodol.</p>

Cymorth rhagnodi i'r maes gofal sylfaenol

Mae rolau cymorth a chynghor mewn perthynas â rhagnodi yn y maes gofal sylfaenol wedi'u diffinio'n glir.



Mae cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn cael ei reoli'n dda drwy dri thîm ar draws tair ardal y Bwrdd Iechyd. Mae gan bob tîm fferylllydd ardal arweiniol; sy'n uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr Clinigol.

Mae lefel gyffredinol cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (gweler [Atodiad 5: Arddangosyn 46](#)). Ceir rhywfaint o amrywiad yn lefel y cymorth ar draws y tair ardal, sy'n rhannol oherwydd yr adnoddau staffio a etifeddwyd o'r byrddau Iechyd Lleol blaenorol pan gawsant eu had-drefnu. Mae rhywfaint o hyblygrwydd wedi datblygu, gyda thechnegwyr yn gweithio ar draws ardaloedd yn ôl yr angen.

Yn gyffredinol, mae fferyllwyr wedi aros yn yr ardal y maent yn gyfarwydd â hi.

Cynhaliwyd ymarfer dyddiadur gennym ym mhob bwrdd Iechyd i edrych ar y math o weithgareddau a wneir gan aelodau o dimau cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a graddau'r gweithgareddau hynny (gweler ein dadansoddiad o'r canlyniadau yn [Atodiad 5](#)). Awgryma ein canfyddiadau cyffredinol fod lle i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ymhellach ar ddefnyddio adnoddau presennol.

Mae fferyllwyr yn rhoi cynghor a chymorth i feddygon teulu a rhagnodwyr eraill i annog ymddygiad rhagnodi effeithiol. Maent yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau cymorth rhagnodi eraill.

Mae technegwyr yn cynnal archwiliadau a chwiliadau mewn practisau, ac maent yn gweithio'n gynyddol mewn lleoliadau eraill (gweler uchod) i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd rhagnodi ac i ddarparu cynghor.

Mae'r timau yn cynnal ymweliadau rhagnodi blynyddol â phractisau ac maent yn gweithio i sicrhau bod yr ymweliadau hyn yn fwy cyson o ran eu fformat a'u hyd. Yn dilyn pob ymweliad, mae'r fferyllwyr yn paratoi adroddiad ar gyfer y practis.

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Cymorth rhagnodi i'r maes gofal sylfaenol		
<p>Mae rolau cymorth a chyngor mewn perthynas â rhagnodi yn y maes gofal sylfaenol wedi'u diffinio'n glir.</p>	<p>✓</p>	<p>Mae'r tîm rhagnodi yn cynnal dadansoddiadau manwl o wybodaeth ac yn defnyddio hyn i dargedu ymyriadau ac i amlygu practisau y gallant wella neu sy'n allanolion. Mae canlyniadau'r dadansoddiadau yn helpu i roi ffocws i'r cynllun gwaith blynyddol.</p> <p>Awgryma cyfweiliadau fod meddygon teulu yn gweithio'n dda gyda'u fferyllwyr a'u technegwyr lleol ac maent yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau a'r cyngor a roddir ganddynt. Caiff pob practis ei gynrychioli gan arweinydd rhagnodi meddyg teulu, ac maent yn cyfarfod bob chwarter i drafod pynciau lleol a chenedlaethol.</p>
<p>Mae systemau gwybodaeth ar waith i gefnogi cyngor ar ragnodi.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Rhaid i'r tîm rhagnodi ddefnyddio data rhagnodi cenedlaethol sy'n dri mis oed pan gânt eu derbyn; fodd bynnag, fe'u defnyddir yn dda a chânt eu hadolygu'n fisol. Mae gan feddygon teulu fynediad i ddata drwy borth SharePoint.</p> <p>Mae gan ragnodwyr fynediad i leoliad ar y fewnwyd sy'n darparu gwybodaeth ragnodi gadarn. Mae rhai sefydliadau yng Nghymru a'r DU yn ehangach wedi ymestyn y math hwn o ddarpariaeth i leoliad ar y rhyngwyd, sydd ar gael i'r gymuned ehangach o ragnodwyr a'r cyhoedd. Gall y math hwn o fynediad alluogi'r gymuned ehangach o randdeiliaid i wella eu dealltwriaeth o drefniadau lleol.</p>

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Cymorth rhagnodi i'r maes gofal sylfaenol		
Rhaglen addysg ar waith.	✓	<p>Mae'r tîm cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn awyddus i ddarparu cyfleoedd datblygu ym maes rheoli rhagnodi i feddygon teulu a'u staff. Ceir cyfarfodydd chwarterol ar gyfer arweinwyr rhagnodi meddygon teulu, sy'n cynnwys cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant a diweddariadau. Mae'r tîm rhagnodi hefyd yn gweithio'n agos gyda staff practisau, gan gynnwys cynllun i hyfforddi staff gweinyddol i weithredu fel clerigwyr rhagnodi a monitro rhagnodi gwael yn y meddygfeydd. Gall y staff hyn wedyn helpu i hyrwyddo rhagnodi priodol yn unol â chynlluniau'r Bwrdd Iechyd. Yn fwy diweddar, cafodd y gwaith hwn ei ymestyn gyda ffocws ychwanegol ar fonitro rhagnodi cynhyrchion colostomi, ac archwiliad o'r defnydd o Heparin â phwysau molecwlaid isel. Mae'r rhain yn enghreifftiau da o sut mae'r tîm cymorth rhagnodi wedi gweithio gyda phractisau i ddatblygu staff a gwella ymarfer rhagnodi.</p>

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Cyffurlyfr BIP ABM		
<p>Mae sefydlu cyffurlyfr lleol yn offeryn pwysig i helpu i ddarparu gwybodaeth i gefnogi dewisiadau cyffuriau iach a darbodus mewn bwrdd iechyd. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen datblygu'r cyffurlyfr gydag ymgysylltiad clinigwyr perthnasol. Yn ogystal, mae angen ei hyrwyddo mor eang â phosibl ar draws y meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd, a dylai fod ar gael yn fwy cyfleus, gan gynnwys yn electronig. Dylai'r cyffurlyfr hwn nodi drwy system goleuadau traffig (coch, melyn, gwyrdd) neu brosesau tebyg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Meddyginiaethau sy'n addas i'w rhagnodi ym maes gofal sylfaenol. • Meddyginiaethau a ysgogir mewn ysbyty/lleoliad arbenigol ond sy'n addas ar gyfer gofal a rennir gyda'r maes gofal sylfaenol o dan gytundeb gofal ar y cyd y Bwrdd Iechyd. • Meddyg ymgynghorol neu arbenigwr mewn ysbyty sy'n gyfrifol am ragnodi. • Nid yw'r DTG yn argymhell defnyddio meddyginiaeth ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. <p>Yn yr amgylchiadau hyn gofynnir am gyngor cynghorydd rhagnodi a chofnodir y rhesymau dros ragnodi.</p>		<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd un cyffurlyfr lleol y mae'n ei adolygu'n barhaus. Adeg ein gwaith maes, roedd gwaith penodol yn cael ei wneud i ddiweddarau a chryfhau'r cyffurlyfr, ar y cyd â chyflwyno rhyngwyneb meddalwedd newydd ar gyfer y cyffurlyfr ar y fewnwyd. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn.</p> <p>Dywedodd meddygon teulu a staff wrthym fod lefelau amrywiol iawn o berchnogaeth ymysg rhagnodwyr o ran y cyffurlyfr lleol cyfredol.</p> <p>Mae'r cyffurlyfr presennol ar gael i'r rhai a chanddynt fynediad i fewnwyd y Bwrdd Iechyd, ac mae wedi'i strwythuro yn yr un ffordd â fersiwn ar-lein Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gall defnyddwyr ddeall y fformat. Byddai sicrhau bod y cyffurlyfr ar gael ar lein i bob rhanddeiliad posibl yn ymestyn dealltwriaeth ac yn helpu i wella cyfathrebu.</p> <p>Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo polisi strategol i addasu technolegau cyflymach, gan wneud penderfyniadau interim cyflym er budd ariannol i'r Bwrdd Iechyd ac er budd clinigol i gleifion.</p> <p>Dylai hyn helpu i ymdrin â chanfyddiadau clinigwyr o oedi'n deillio o'r amser sydd ei angen gan NICE ac AWMSG i werthuso cyffuriau newydd.</p> <p>O ran y dyfodol, bydd sefydlu un llwyfan TG ar gyfer y cyffurlyfr, gan ddisodli'r tair system gyfredol wahanol, yn cynorthwyo mwy o gysondeb wrth ragnodi ar draws y Bwrdd Iechyd. Dylai cyflwyno'r systemau rhagnodi electronig arfaethedig gynnig rhagor o gyfleoedd i wella cysondeb.</p>

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Cyffurlyfr BIP ABM		
<p>Caiff cydymffurfiaeth â'r cyffurlyfr ei fonitro a chamau eu cymryd pan ganfyddir achosion o fynd yn groes i'r hyn sydd ynddo.</p>		<p>Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod bod monitro cydymffurfiaeth â'r cyffurlyfr ar draws y maes gofal eilaidd yn her. Mae rhai achosion lle y gall fferyllwyr y gyfarwyddiaeth ddylanwadu ar ymddygiad rhagnodi, ond nid yw hyn yn gyson ar draws pob maes. Yn yr un modd, mae monitro ym maes gofal sylfaenol hefyd yn her ond mae targedu cyffuriau penodol ac adolygu data rhagnodi yn rheolaidd yn nodi allanolion.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth yn ymchwilio i a ellir gwneud rhagor i ddefnyddio Scriptswitch er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth â'r cyffurlyfr ym maes gofal sylfaenol.</p> <p>Nid oedd y fferyllwyr y gwnaethom siarad â hwy yn ystod ein gwaith maes yn ymwybodol o unrhyw waith monitro mewn perthynas â chanllawiau cyffurlyfr lleol. Serch hynny, dywedasant fod materion yn codi'n gyson mewn perthynas â rhagnodi cyffuriau nad ydynt yn y cyffurlyfr neu nad ydynt yn cydymffurfio â chytundebau lleol.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd fonitro'n rheolaidd faterion cydymffurfiaeth â rhagnodi ar y rhyngwyneb, er mwyn helpu i nodi patrymau rhagnodi amhriodol a darparu sail ar gyfer her briodol ar gyfer rhagnodwyr arbenigol.</p> <p>Mae'r tîm rhagnodi gofal sylfaenol yn cydnabod y gall diffyg hyder ymysg meddygon teulu o ran herio argymhellion rhagnodi meddyg ymgynghorol fod yn broblem. Cafwyd trafodaeth am gyflwyno ffurflen y byddai meddygon teulu yn ei chwblhau er mwyn herio argymhellion rhagnodi. Mae rhai byrddau iechyd eraill wedi rhoi trefniant o'r math hwn ar waith. Fodd bynnag, nid aethpwyd ar ei drywydd yn lleol oherwydd pryderon am oedi posibl o ran triniaeth a allai fod wedi deillio o hynny. Mae ein gwaith maes mewn byrddau iechyd eraill wedi dangos yr ystyrir bod y math hwn o drefniant yn effeithiol iawn.</p>

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Cyffurlyfr BIP ABM		
<p>Caiff cydymffurfiaeth â'r cyffurlyfr ei fonitro a chamau eu cymryd pan ganfyddir achosion o fynd yn groes i'r hyn sydd ynddo.</p>		<p>Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi rhannu'r ddogfen Prescribing Across the Interface yn eang, sy'n amlinellu'r gofynion a'r cyfrifoldebau rhagnodi priodol. Dywedodd y meddygon teulu y gwnaethom siarad â hwy eu bod, yn bersonol, yn teimlo'n hyderus i herio argymhellion, ond maent yn pryderu nad yw pob meddyg teulu yn teimlo'r un fath. Awgrymwyd amrywiol resymau dros hyn, gan gynnwys diffyg amser, diffyg dealltwriaeth o broblemau rhagnodi penodol, a meddygon teulu'n anghyfarwydd ag arbenigwyr ymgynghorol.</p> <p>Mae'r tîm cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn bwriadu ymdrin yn fwy cadarn â hyn yn y dyfodol. Mae cyfathrebu ynghylch rhagnodi ar draws y rhyngwyneb rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol yn faes lle ceir risg fawr, a dylai'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu gwaith i wella diogelwch ac ansawdd yn y maes hwn.</p>

Ymarfer disgwyliedig**Ar waith****Rhagor o wybodaeth****Gr p cyffuriau a thriniaethau therapiwtig BIP ABM**

Mae gwaith grwpiau cyffuriau a therapiwtig lleol yn elfen allweddol o sicrhau'r defnydd diogel, effeithiol a darbodus o gyffuriau newydd a mathau o driniaeth.



Byddem yn disgwyl gweld yr elfennau canlynol o arfer da:

- bod yr aelodaeth yn cynrychioli'r holl randdeiliaid gan gynnwys aelodau lleog;
- bod yr aelodaeth yn cwmpasu ystod eang o arbenigeddau o ran arbenigedd meddygol;
- bod y blaengynllun yn amlinellu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn;
- bod y gr p yn defnyddio'r ystod lawn o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i lywio penderfyniadau;
- bod gan y gr p broses gadarn, systematig a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau fel rhan o'i fframwaith llywodraethu cyffredinol;
- bod pob penderfyniad rhagnodi yn ystyried effaith cyffuriau a werthir ar golled er mwyn denu cwsmeriaid mewn gofal eilaidd a gofal sylfaenol; a
- bod penderfyniadau'r gr p yn cael eu cyfleu mewn ffordd amserol.

✓/x

Mae'r Gr p Rheoli Meddyginiaethau yn integreiddio'r hyn a arferai fod yn grwpiau gweithredol a rheoli meddyginiaethau strategol ar wahân. Mae felly'n ystyried materion strategol a gweithredol, ac fe'i cefnogir gan nifer o is-grwpiau, gan gynnwys y gr p cyffurlyfr a'r gr p cynghori ar ragnodi mewn gofal sylfaenol.

Adeg ein gwaith maes roedd y Prif Fferylllydd yn bwriadu adolygu'r ffordd y rheolir cyfarfodydd y Gr p Rheoli Meddyginiaethau i sicrhau y gellid neilltuo amser priodol i bob maes.

Ymarfer disgwylidig	Ar waith	Rhagor o wybodaeth
Gweithio ar y rhyngwyneb		
<p>Y mater mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar reoli meddyginiaethau ar draws y rhyngwyneb yw cyfathrebu gwael ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng rhagnodwyr. Er mwyn hwyluso hyn mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi ar brotocolau gweithio sy'n sicrhau bod meddyginiaethau a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel ar draws y rhyngwyneb gofal sylfaenol/gofal eilaidd</p>		<p>Mae fferyllwyr effeithiolrwydd clinigol wedi gweithio gyda chlinigwyr o'r meysydd gofal eilaidd a sylfaenol i ddatblygu ystod o brotocolau ar y cyd. Caiff polisïau ar y cyd eu llwytho ar y fewnwyd ac maent ar gael ar borth meddygon teulu gwefan y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Er na chynhaliwyd archwiliad clinigol manwl yn y maes hwn, mae cadarnhad ar ôl talu wedi darparu rhywfaint o dystiolaeth nad oedd y cydbrotocolau gofal hyn yn cael eu dilyn yn gyson gan bob clinigydd. Mae hwn yn fater a fyddai'n elwa ar adolygiad manwl er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau cysondeb o ran fformat y cytundebau a luniwyd; ac • amlygu amrywiadau mewn cyfraddau cydymffurfiaeth.
<p>Anfonir llythyrau rhyddhau amserol at feddygon teulu, yn cynnwys gwybodaeth glir a pherthnasol i helpu i gefnogi penderfyniadau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol. Dylai'r rhain:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi bod cyflwr y claf yn sefydlog; • cynnwys y rhesymau dros unrhyw newid mewn meddyginiaeth; • nodi meddyginiaethau a argymhellir drwy enw generig a dosbarth therapiwtig; • rhoi'r rheswm pam yr argymhellir unrhyw feddyginiaethau brand; a • rhoi'r rheswm pam yr argymhellir unrhyw gyffuriau nad ydynt wedi'u trwyddedu neu gyffuriau all-drwydded. 		<p>Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ansawdd y wybodaeth ryddhau wedi bod yn gwella. Fodd bynnag, dywedodd meddygon teulu wrthym fod gwybodaeth ryddhau a ddarperir gan staff meddygol yn aml yn wael, gan ei gwneud yn anos i feddygon teulu fod yn hyderus ynghylch sicrhau eu bod yn rhagnodi'r cyffuriau priodol i gleifion.</p> <p>Er bod system beilot rhyddhau electronig wedi cael ei threialu, dywedodd meddygon teulu wrthym hefyd fod gwybodaeth feddygol sylfaenol yn parhau i fod yn brin ar y cofnodion rhyddhau a gynhyrchir, ac weithiau mai fferyllwyr a staff y ward yw'r unig bobl sydd wedi cofnodi gwybodaeth.</p>

Sicrhau trefniadau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus

11. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn amrywio ym mhob un o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol, ac mae lle i wella ansawdd rhagnodi a'r defnydd darbodus o rai cyffuriau, yn arbennig mewn meysydd pwysig fel rhagnodi meddyginiaethau gwrthfacterol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

Pennu cyllideb a pherfformiad ariannol:

- Caiff y cyllidebau rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd eu cadw ar wahân. Mae gan bob ardal gofal sylfaenol, yn ogystal â phob cyfarwyddiaeth gofal eilaidd, gyllideb gyffuriau ar wahân. Dywedir bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda. Caiff y gwaith cyflawni ei fonitro a'i adrodd i'r Bwrdd drwy'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau.

Gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol:

- Mae gwariant y Bwrdd Iechyd yn fwy na'r cyfartaledd mewn rhai o'r meysydd a ddiffinnir gan Gyffurlyfr Cenedlaethol Prydain, ond ymddengys fod y costau'n rhesymol, o gymharu â byrddau iechyd eraill. (**Atodiad 2**). Fodd bynnag, y bwrdd iechyd sydd â'r lefel ragnodi uchaf yng Nghymru o ran cyffuriau sy'n ymwneud â maeth uchaf. Er y gellir cyfiawnhau'r lefel hon o ragnodi, mae angen deall y rhesymau dros y gwariant hwn.

Dangosyddion rhagnodi effeithiol:

- Rydym wedi amcangyfrif bod potensial i sicrhau rhagor o arbedion heb effeithio ar ofal cleifion (hyd at uchafswm o £1.6 miliwn). Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth asesu i ba raddau y gellir cyflawni'r cyfleoedd a amlygir, drwy dynnu ar brofiad ac amgylchiadau lleol, ac yna blaenoriaethu ei gwaith yn unol â hynny.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o'r byrddau sy'n perfformio orau o ran cyfraddau rhagnodi generig, ond rydym yn amcangyfrif bod ganddo'r potensial i ryddhau arbedion o £367,000 drwy wella ei berfformiad ymhellach.
- Mae swm y gorchuddion gwrthficrobaidd a ragnodir gan feddygon teulu, fel cyfran o'r holl orchuddion, yn gymharol uchel o gymharu â byrddau iechyd eraill a cheir potensial i arbed £91,000 os bydd ei berfformiad yn cyfateb i'r perfformiad gorau.

Dangosyddion rhagnodi cenedlaethol

- Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn amrywio ar draws yr 14 o ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol.
- Y Bwrdd Iechyd sydd â'r cyfraddau rhagnodi uchaf ond un ar gyfer atalyddion pwmp proton cost isel a chanran yr atalyddion ACE a ragnodir ar gyfer cyffuriau sy'n effeithio ar y systemau renin-angiotensin, sy'n dda.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi cyfran uchel o statinau cost isel, sy'n dda, a phe bai'r gyfradd ragnodi'n cyfateb i gyfradd y meddygon teulu sy'n perfformio orau byddai cyfle o hyd i sicrhau arbedion ychwanegol o £281,000. Mae meddygon teulu'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi'r ganran isaf o Ibuprofen a Naproxen mewn perthynas â rhagnodi cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd sy'n awgrymu bod angen gwneud llawer mwy i wella rhagnodi rhesymegol yn hyn o beth.

Adroddiadau am adweithiau niweidiol i gyffuriau:

- Prin yw'r dystiolaeth o adroddiadau cyson a chadarn am adwaith niweidiol i gyffuriau a digwyddiadau'n ymwneud â meddyginiaeth.

Gwastraff cyffuriau:

- Cydnabyddir bod gwastraff cyffuriau yn fater strategol pwysig, ond yn gyffredinol cydnabyddir na fu'n bosibl cael amcangyfrif cywir o gyfanswm y meddyginiaethau a wastreffir.

12. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n ategu'r casgliad hwn.

Pennu cyllideb a pherfformiad ariannol		
Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Dylai'r broses gyllidebu fod yn ysgogydd allweddol i wella perfformiad yn barhaus ac mae hyn yn gofyn i gyllidebau gael eu pennu mewn modd rhesymegol sy'n agored ac yn dryloyw.	✓/x	Caiff y cyllidebau rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd eu cadw ar wahân. Mae gan bob ardal gofal sylfaenol, yn ogystal â phob cyfarwyddiaeth gofal eilaidd, gyllideb gyffuriau ar wahân. Dywedir bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda. Caiff y gwaith cyflawni ei fonitro a'i adrodd i'r Bwrdd drwy'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod nad oes dull delfrydol o bennu cyllideb, a hoffai weithio tuag at ddull sy'n seiliedig ar bractisau a chymunedau. Caiff categori M, sganio'r gorwel, ac arbedion posibl eu cynnwys fel rhan o ddatblygu cynllun cyllid sy'n gytbwys.
Mae monitro ariannol yn digwydd ar lefel tîm a chymerir camau os na chaiff targedau eu cyrraedd.	✓	Yn sgil sefydlu tair ardal, cyflwynwyd adnodd i helpu i fonitro cynlluniau arbedion. Mae hyn wedi galluogi lefel o fonitro y mae'r tîm yn fodlon arno.
Mae monitro ariannol yn digwydd ar lefel y Bwrdd.	✓/x	Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael diweddariad ariannol lefel uchel fel elfen o bob papur Bwrdd Iechyd, a darparwyd diweddariadau penodol pan ofynnwyd amdanynt.

Gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol		
Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r rhesymau dros wariant presennol y Bwrdd Iechyd ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn hysbys ac yn ddealliedig.	✓/x	<p>Gwnaethom ddadansoddiad o wariant a thueddiadau rhagnodi rhwng byrddau iechyd, wedi'i drefnu o dan 15 Pennawd Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain ac wedi'i addasu yn ôl poblogaeth (gweler Atodiad 2 ar gyfer dadansoddiad o wariant). Mae'r chwe phrif faes o wariant uchel yng Nghymru fel a ganlyn</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyffuriau gastroberfeddol; • cyffuriau cardiofasgwlaidd; • cyffuriau anadlol; • cyffuriau'r system nerfol ganolog; • cyffuriau endocrin; a • chyffuriau maeth a gwaed. <p>Er bod gwariant y Bwrdd Iechyd yn fwy na'r cyfartaledd mewn rhai o'r meysydd hyn, ymddengys ei fod yn cadw'r costau'n rhesymol o gymharu â byrddau iechyd eraill yn y rhan fwyaf o ardaloedd (gweler Atodiad 2: Arddangosion 1 i 6). Y lefel ragnodi leol o ran cyffuriau sy'n gysylltiedig â maeth a gwaed yw'r uchaf yng Nghymru (gweler Atodiad 2: Arddangosyn 7). Wrth ystyried y wybodaeth, mae'n bwysig deall y gall fod ffactorau lleol a allai esbonio, a chyfiawnhau, safle uwch mewn perthynas â gwariant a lefel ragnodi (Dos Dyddiol Diffiniedig fesul Uned Ragnodi).</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddangos lleihad yng nghyfanswm y gwariant, a gwariant cyfartalog fesul eitem, ar gyfer rhagnodi cyffuriau ym maes gofal sylfaenol dros y tair blynedd diwethaf (2010/11, 2011/12, 2012/13). Cofnodwyd tueddiadau tebyg ym mhob bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod hwn (gweler Atodiad 2: Arddangosion 8 a 9).</p>

13. Mae'r tablau isod yn crynhoi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio yn erbyn ystod o ddangosyddion rhagnodi a adolygir fel rhan o'r archwiliad. Darperir cymariaethau ychwanegol ar ffurf graffiau yn **Atodiad 3** yr adroddiad.

Dangosyddion rhagnodi effeithiol

Ymarfer disgwylidig

Gall y Bwrdd Iechyd gynhyrchu rhagor o arbedion drwy sicrhau bod y cyfraddau rhagnodi cyffredinol yn cyfateb i'r chwartzel gorau o bractisau meddygon teulu.

Mae'r chwartzel gorau o bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn cyflawni lefelau o 85 y cant o ran rhagnodi generig. Mae rhai cyffuriau brand (fel Ventolin a Zapain) a gaiff eu rhagnodi mewn symiau mawr yn rhatach na'r cyffuriau cyffredinol cyfatebol ar hyn o bryd. Yn dibynnu ar y gymysgedd o achosion gall practisau meddygon teulu fod â mwy neu lai o botensial i sicrhau arbedion yn y maes hwn.

Er mwyn lleihau effaith amrywiad datblygwyd basged o gyffuriau a ragnodir yn gyffredin a chyffuriau generig cyfatebol er mwyn nodi arbedion y gellir eu cyflawni drwy wella rhagnodi generig.

Mae Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain yn disgrifio nifer o gyffuriau sy'n llai addas i'w rhagnodi oherwydd bod ganddynt werth clinigol cyfyngedig, oherwydd eu bod wedi'u disodli gan gyffuriau mwy effeithiol neu oherwydd bod ganddynt sgil-effeithiau sylweddol.

Pe bai 50 y cant o'r presgripsiynau ar y paratodau hyn yn cael eu diddymu yna gallai'r Bwrdd Iechyd sicrhau arbedion.

Ni chanfu NICE unrhyw dystiolaeth gref ar gyfer effeithiolrwydd rhagnodi glwcosamin, ac yn sgil hynny nid yw wedi'i argymhell i'w rhagnodi gan y GIG.

Pe bai meddygon teulu yn rhoi'r gorau i rhagnodi glwcosamin yna gallai'r Bwrdd Iechyd sicrhau arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Rydym wedi amcangyfrif bod potensial i sicrhau rhagor o arbedion heb effeithio ar ofal cleifion (hyd at uchafswm o £1.6 miliwn).

Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth asesu i ba raddau y gellir cyflawni'r cyfleoedd a amlygir isod, drwy dynnu ar brofiad ac amgylchiadau lleol, ac yna blaenoriaethu ei waith yn unol â hynny.

Ar hyn o bryd, y Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfradd rhagnodi generig uchaf ond dau yng Nghymru, sef 83 y cant (85 y cant yw'r uchaf).

Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn basged o gyffuriau generig yn dangos y potensial i gyflawni arbedion ychwanegol o £367,000 pe bai'r holl gyffuriau'n cael eu rhagnodi'n generig (**Atodiad 3: Arddangosyn 10**).

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £404,000 ar y paratodau hyn sef 21 y cant o'r gwariant yng Nghymru (gweler **Atodiad 3: Arddangosyn 12**). Awgryma hyn fod gan y Bwrdd Iechyd gyfleoedd mewn perthynas ag ansawdd ac arbedion pe câi gwelliannau eu cyflawni yn y maes hwn.

Awgryma'r perfformiad hwn fod cryn gyfle i gynorthwyo meddygon teulu i rhagnodi'n rhesymegol.

Er mai bach yw'r gwerth cyffredinol, y Bwrdd Iechyd sydd â'r gwariant mwyaf ond un ar glwcosamin yng Nghymru. (Gweler **Atodiad 3: Arddangosyn 13**).

Dangosyddion rhagnodi effeithiol

Ymarfer disgwylidig

Mae NICE wedi nodi nifer o gyffuriau nad argymhellir eu defnyddio'n rheolaidd. Adlewyrcha'r perfformiad yn erbyn basged o gyffuriau² yn y categori hwn drefniadau rhagnodi effeithiol a diogel o ran gofal sylfaenol.

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £109,000 (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 14](#)). Awgryma hyn fod angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau trefniadau rhagnodi rhesymegol o ansawdd uchel.

Rhagnodi ar reoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd a chynhyrchion anymataliaeth

Ymarfer disgwylidig

Gorchuddion gwrthficrobaidd

Er y defnyddir gorchuddion gwrthficrobaidd yn eang, mae ansawdd y dystiolaeth ar gyfer eu defnydd ym maes gofal sylfaenol yn gyfyngedig ac o ansawdd gwael. Yng ngoleuni'r lluo o orchuddion sydd ar gael, diffyg cyngor penodol mewn canllawiau cenedlaethol, a chan gydnabod cyfyngiadau ariannol, mae cyffurlyfrau lleol yn darparu dull o resymoli'r dewis o orchuddion.

Gallai'r Bwrdd Iechyd sicrhau arbedion drwy symud pob meddyg teulu tuag at y lefelau rhagnodi gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau.

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £2 filiwn ar orchuddion clwyfau ac mae 6.1 y cant o'r holl orchuddion a ragnodir yn ardal y Bwrdd Iechyd yn orchuddion gwrthficrobaidd, sy'n gymharol isel o gymharu â byrddau iechyd eraill, ond mae lle o hyd i arbed £91,000 (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 15](#)).

Ers ein gwaith maes, mae cyffurlyfr gorchuddion wedi cael ei ail-lansio gan y Bwrdd Iechyd, a ddylai helpu i ganolbwyntio sylw ar ddefnyddio gorchuddion yn fwy effeithiol.

² Roedd y fasged hon yn cynnwys Aliskiren, Cilostazol, Roflumilast, Linagliptin, Paricalcitol, ac Asid Hyaluronig (Sodiwm).

Rhagnodi ar reoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd a chynhyrchion anymataliaeth

Ymarfer disgwylidig

Atchwanegiadau bwyd

Aseswyd sylfaen y dystiolaeth ar gyfer atchwanegiadau maeth drwy'r geg gan NICE a daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad, nes y daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg, y dylai pobl â phroblemau colli pwysau sy'n eilradd i salwch naill ai gael eu rheoli drwy eu hatgyfeirio at ddeietegydd, neu gan staff drwy ddefnyddio protocolau a luniwyd gan ddeietegwyr, a'u hatgyfeirio yn ôl yr angen. Awgrymodd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod astudiaeth arlwygo mewn ysbytai Swyddfa Archwilio Cymru fod atchwanegiadau maeth yn cael eu rheoli'n wael yn y gymuned; mae'r costau'n uchel a cheir llawer o wastraff.

Pe bai'r gost fesul eitem yn cael ei lleihau i'r gost gyfartalog isaf yng Nghymru gallai'r Bwrdd lechyd ryddhau'r arbedion. Efallai y bydd modd gwneud rhagor o arbedion pe bai swm yr eitemau'n lleihau.

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn gwario £1,769,000 ar atchwanegiadau bwyd Bwydo drwy Lymeidiau, ac nid dyma'r Bwrdd lechyd sy'n gwario fwyaf ar yr eitemau hyn ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r gost gyfartalog fesul eitem yn gymharol uchel o gymharu â byrddau ieuchyd eraill, sef £42.65 (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 16](#)). Pe bai'r gwariant hwn yn cyfateb i'r gorau yng Nghymru byddai'r Bwrdd lechyd yn sicrhau arbedion o £183,000.

Dengys ein dadansoddiad o wariant ar benodau Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain ([Atodiad 2](#)) hefyd pan gaiff ei addasu ar gyfer y boblogaeth, mai'r Bwrdd lechyd sydd â'r gyfradd uchaf (yn seiliedig ar y Dos Dyddiol Diffiniedig fesul ragnodi) ledled Cymru ar gyfer y categori hwn.

Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd lechyd wedi bod yn rhagweithiol yn y maes hwn, o ran penodi deietegwyr arbenigol i'w dimau lleol ragnodi a rheoli meddyginiaethau i weithio gyda phractisau a chartrefi gofal ar well maeth i bobl h n. Mae gwaith lleol wedi bod yn cael ei wneud i ddatblygu fersiwn lleol o Lwybr Maeth Cymunedol Cymru Gyfan.

Er bod modd cyfiawnhau lefelau cymharol uchel o ddefnydd, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y rhesymau dros y lefel ragnodi hon yn cael eu deall, ac y gweithredir ar hynny os bydd angen, yn arbennig gan ei fod yn canolbwyntio ar ieuchyd a lles yr henoed eiddil eleni.

Rhagnodi ar reoli clwyfau, atchwanegiadau bwyd a chynhyrchion anymataliaeth

Ymarfer disgwylidig

Cynhyrchion anymataliaeth a stoma

Canfu archwiliad cenedlaethol o anymataliaeth fod mwyafrif helaeth y gwasanaethau ataliaeth wedi'u hintegreiddio'n wael ar draws lleoliadau aciwt, meddygol, llawfeddygol, sylfaenol, cartrefi gofal a lleoliadau cymunedol, gan arwain at ofal digyswllt ar gyfer cleifion a gofalwyr. Yn y maes gofal sylfaenol, fel arfer darperir dyfeisiau anymataliaeth a stoma i gleifion fel arfer drwy bresgripsiwn wedi'i ysgrifennu gan eu meddyg teulu neu nyrs ragnodi.

Yna caiff y presgripsiwn hwn ei gyflenwi gan un o'r canlynol: contractwr dyfeisiau ar bresgripsiwn, contractwr fferyllol neu feddyg fferyllol.

Gall dull sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd a swm rhagnodi cynhyrchion anymataliaeth a stoma arwain at arbedion o ran cost.

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £3.18 miliwn ar ddyfeisiau stoma a £412,000 ar ddyfeisiau anymataliaeth (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 17](#)). Awgryma hyn fod potensial i wella'r ffordd y rheolir gwasanaethau ataliaeth lleol ymhellach.

Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn dangosyddion 2011-12

Ymarfer disgwylidig

Rhagnodi atalyddion ACE

Meddyginiaethau a ddefnyddir i drin pwysedd gwaed uchel yw atalyddion ACE (atalyddion ensymau sy'n trosi angiotensin). Noda Canllawiau Clinigol NICE (CG34) fod tebygrwydd mawr rhwng atalyddion ACE a dyfeisiau gwrthwynebu derbynyddion angiotensin-II, ond oherwydd gwahaniaethau o ran cost, dylid defnyddio atalyddion ACE yn gyntaf.

Byddai perfformiad sy'n cyfateb i'r chwarterl meddygon teulu sy'n perfformio orau yn arwain at arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, y Bwrdd Iechyd sydd â'r perfformiad gorau ond un yng Nghymru yn erbyn y dangosydd hwn (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 18](#)). Pe bai'r Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni'r perfformiad gorau o ran chwarterl byddai hyn yn arwain at arbed £57,000 arall ([Atodiad 3: Arddangosyn 19](#)).

Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn dangosyddion 2011-12

Ymarfer disgwylidig

Atalyddion Pwmp Proton

Defnyddir atalyddion pwmp proton i drin clefyd adlif oesoffogaidd, dyspepsia, neu friwiau gastrig. Er bod pryderon yn cael eu mynegi am ddiogelwch rhagnodi atalyddion pwmp proton yn yr hirdymor yn awr, argymhella NICE y dylid defnyddio'r atalyddion pwmp proton rhataf. Byddai perfformiad sy'n cyfateb i'r chwarter meddygon teulu sy'n perfformio orau yn arwain at arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o'r rhagnodwyr mwyaf, ac felly'n un o'r goreuon, mewn perthynas ag atalyddion pwmp proton cost isel yng Nghymru (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 20](#)). Byddai cynyddu eu defnydd ymhellach fel cyfran o atalyddion pwmp proton yn creu arbedion posibl i'r Bwrdd Iechyd, a phe bai perfformiad yn cyfateb â'r chwarter gorau byddai hyn yn £81,000 (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 21](#)).

Perfformiad yn erbyn y dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

Ymarfer disgwylidig

Cyffuriau Gwrthlidiol Ansteroidaidd Ibuprofen a Naproxen (NSAIDs)

Mae NSAID yn feddyginiaeth sy'n cael ei defnyddio'n gyffredin i atal poen, lleihau llid a lleihau twymyn. Ceir tystiolaeth sylweddol i leihau rhagnodi NSAIDs yn arbennig ar gyfer yr henoed. Os oes rhaid rhagnodi NSAIDs, er mwyn lleihau'r risg derbynir ibuprofen a naproxen fel y dewis cyntaf.

Byddai perfformiad sy'n cyfateb i'r chwarter meddygon teulu sy'n perfformio orau yn arwain at arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Y Bwrdd Iechyd sy'n rhagnodi'r ganran isaf o ibuprofen a naproxen (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 22](#)). Awgryma hyn, er bod cynnydd wedi'i wneud, bod lle i wneud llawer mwy yn y maes hwn.

Rydym yn cydnabod bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud, gan gynnwys:

- timau lleol rhagnodi a rheoli meddyginiaethau yn canolbwyntio ar NSAIDs gyda fferyllwyr cymunedol er mwyn gwella rhagnodi; a
- gwaith Fferyllwyr Poen Cronig o ran targedu practisau mewn perthynas â'u defnydd o NSAIDs, a datblygu canllawiau ar boen cronig.

Yn ogystal â gwella ansawdd rhagnodi, byddai cynyddu'r defnydd o ibuprofen a naproxen ymhellach hefyd yn arwain at arbedion posibl o £100,000 i'r Bwrdd Iechyd pe bai ei berfformiad yn cyfateb i chwarter uchaf practisau meddygon teulu (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 23](#)).

Perfformiad yn erbyn y dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

Ymarfer disgwylidig

Statinau cost isel

Mae canllawiau presnnol NICE yn hyrwyddo'r defnydd o statinau cost isel fel triniaeth gyntaf i'r rhan fwyaf o bobl â chlefyd fasgwlaidd atherosglerotig, y rhai â diabetes ac eraill sydd mewn perygl mawr o gael clefyd cardiofasgwlaidd. Canfuwyd mai dyma'r ymyriad mwyaf cost-effeithiol. Byddai perfformiad sy'n cyfateb i'r chwarter meddygon teulu sy'n perfformio orau yn arwain at arbedion.

Inswlin hirdymor ar gyfer diabetes math 2

Mae canllawiau NICE ar reoli diabetes math 2 yn argymhell mai inswlin isoffan dynol (NPH) yw'r opsiwn a ffefrir. Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl gyda diabetes math 2, nid oes gan analogau inswlin hirdymor fantais sylweddol dros inswlin NPH dynol, ac maent yn llawer drutach. Byddai perfformiad sy'n cyfateb i'r chwarter meddygon teulu sy'n perfformio orau yn arwain at arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd y Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau ledled Cymru o ran y dangosydd hwn ac mae'n agos at y targed o 95 y cant (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 25](#)). Os bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r perfformiad gorau o ran chwarter byddai hyn yn arwain at arbed £281,000 yn ychwanegol ([Atodiad 3: Arddangosyn 26](#)). Byddai strategaeth tymor canolig yn helpu i arwain y timau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol i sicrhau y gellid cyflawni hyn.

Ar hyn o bryd y Bwrdd Iechyd yw'r rhagnodwr uchaf ond tri o inswlin hirdymor yng Nghymru (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 27](#) ac [Arddangosyn 28](#)) sy'n awgrymu bod lle i wella o ran rhagnodi'r cyffur hwn.

Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

Ymarfer disgwylidig

Opioidau ar gyfer lliniaru poen

Mae gan opioidau rôl sefydledig o ran rheoli poen aciwt yn dilyn trawma (gan gynnwys llawdrinaethau), ac o ran rheoli poen sy'n gysylltiedig â salwch terfynol.

Byddai perfformiad sy'n cyfateb i'r chwarter meddygon teulu sy'n perfformio orau yn arwain at arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, y Bwrdd Iechyd sydd â'r lefel uchaf ond un o ragnodi morffin fel canran o eitemau opioid cryf yng Nghymru sy'n arfer da (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 30](#)). Pe gallai'r Bwrdd Iechyd gyflawni perfformiad sy'n cyfateb i'r chwarter meddygon teulu gorau mae ganddo'r potensial i ryddhau £134,000 mewn arbedion (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 31](#)).

Rhagnodi cyffuriau gwrthfacterol - y naw eitem fwyaf cyffredin

Noda canllawiau'r Asiantaeth Diogelu Iechyd y protocol triniaeth a gwrthfotigau mwyaf priodol ar gyfer heintiau cyffredin mewn gofal sylfaenol. Mae'r naw cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin yn ddigonol i drin: heintiau'r llwybr anadlol uchaf ac isaf, heintiau'r llwybr wrinol a heintiau cyffredin y croen. Mae'r defnydd o wrthfotigau generig syml ac osgoi gwrthfotigau sbectrwm eang (er enghraifft co-amocsiclaif, cwinolonau, a seffalosporinau) yn lleihau'r risg yn sgil bacteria a chanddynt ymwrthedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

Y targed yw 83.58 y cant ar gyfer y naw cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin fel canran o'r eitemau gwrthfacterol.

Y Bwrdd Iechyd yw'r trydydd o blith saith bwrdd iechyd o ran ei berfformiad ar gyfer rhagnodi'r naw cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 32](#)).

Oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfraddau uchel o ragnodi cyffuriau gwrthfacterol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gadw ffocws ar y maes hwn a lleihau'r defnydd ohonynt yn gyffredinol.

Rhagnodi cyffuriau gwrthfacterol - y gyfradd ragnodi gyffredinol

Mae'r rhaglen Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd yng Nghymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd darbodus o gyffuriau gwrthficrobaidd.

Gallai datblygu rhaglen strwythuredig i leihau rhagnodi gwrthfotigau gan feddygon teulu leihau'r potensial i ymwrthedd i wrthfotigau ddatblygu'n lleol.

Y targed yw 329 o eitemau fesul 1,000 o unedau rhagnodi STAR.

Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r cyfraddau rhagnodi cyffuriau gwrthfacterol cyffredinol uchaf yng Nghymru (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 33](#)).

Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

Ymarfer disgwylidig

Y defnydd o wrthfotigau sbectrwm eang

Ceir cysylltiad rhwng y defnydd o gwinolon a nifer yr achosion o ddolur rhydd sy'n gysylltiedig â C. difficile, felly, dylid ei gyfyngu i arwyddion penodol er mwyn lleihau'r risg o ymwrthedd gwrthficrobaidd posibl. Amcangyfrifir mai cost gyfartalog haint C. difficile yw £4,007 sy'n dangos bod canlyniadau i'r system gyfan a chanlyniadau hirdymor posibl yn sgil peidio â rheoli rhagnodi cwinolon.

Mae seffalosporinau yn wrthfotigau sbectrwm eang a ddefnyddir i drin septisemia, niwmonia, llid yr ymennydd, heintiau'r llwybr bustlaidd, peritonitis a heintiau'r llwybr wrinol.

Dylid cyfyngu eu defnydd i arwyddion penodol er mwyn lleihau'r risg o ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd posibl.

Mae targedau wedi'u pennu fel canran o'r holl gyffuriau gwrthfacterol a ragnodir:

- seffalosporinau 3.14 y cant;
- co-amocsiclaflaf 2.99 y cant; a
- chwinolonaau 1.42 y cant.

Doswlepin

Cyffur gwrthiselder yw doswlepin, a ddefnyddiwyd yn hanesyddol lle mae angen effaith gwrthbryder neu lonyddol; fodd bynnag dim ond ychydig o wahaniaeth sydd o ran diogelwch y dos therapiwtig uchaf a dos a allai fod yn anghueol. Noda canllawiau presennol NICE na ddylid newid i ddoswlepin, neu ddechrau rhoi doswlepin, oherwydd mae'r risg gynyddol o drawiad ar y galon a gwenwyno yn sgil gorddos yn fwy na'r dystiolaeth sy'n ategu ei oddefiant o gymharu â chyffuriau gwrthiselder eraill.

Y targed yw 52.15 o ddos dyddiol diffiniedig fesul 1,000 o unedau rhagnodi.

Rhagor o wybodaeth

Mae meddygon teulu yn ardal y Bwrdd Iechyd yn rhagnodi llai o'r seffalosporinau sbectrwm eang (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 35](#)) a chwinolonaau (gweler [atodiad 3: Arddangosyn 36](#)) o gymharu â llawer o'u cydweithwyr mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill.

Nid oes yr un o'r byrddau iechyd wedi cyflawni cyfraddau targed 2012-13 ar gyfer y dangosyddion hyn.

Awgryma hyn fod lle i wella ansawdd rhagnodi yn y maes hwn ac y gellid gwneud mwy yn strategol i leihau unrhyw ymwrthedd i gyffuriau gwrthfacterol yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd cyfraddau rhagnodi doswlepin y Bwrdd Iechyd yw'r isaf ond dau yng Nghymru, ac mae'n agos at y targed chwarterl isaf ar gyfer y dangosydd hwn (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 37](#)). Mae tystiolaeth wedi dangos y gall camau wedi'u targedu leihau'r rhagnodi'n sylweddol. Dylai timau lleol rhagnodi a rheoli meddyginiaethau barhau i dargedu'r maes hwn er mwyn lleihau rhagnodi ar y cyd â staff iechyd meddwl.

Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2012-13

Ymarfer disgwylidig

Hypnotigion a chyffuriau gwrthbryder (anxiolytics)

Bu pryder ynghylch y swm sylweddol o hypnotigion a chyffuriau gwrthbryder a ragnodir yng Nghymru. Cydnabyddir y gall rhywfaint o ragnodi fod yn amhriodol a chyfrannu at y broblem gaethiwed a chuddio iselder sylfaenol. Yn ogystal ceir canlyniadau i'r system gyfan yn sgil costau ychwanegol darparu gwasanaethau caethiwed a rheoli dibyniaeth.

Dylai dull ag iddo ffocws o leihau rhagnodi hypnotigion a chyffuriau gwrthbryder wella ansawdd y gofal a lleihau'r risg i gleifion.

Y targed yw 1,402 o ddsau dyddiol diffiniedig fesul 1,000 o unedau rhagnodi.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi'r lefel uchaf ond tri o hypnotigion a chyffuriau gwrthbryder fesul 1,000 o gleifion o blith byrddau iechyd Cymru, ac mae'n uwch na lefel darged 2012-2013 ar gyfer rhagnodi (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 38](#)).

Ceir cyfle i wella perfformiad ymhellach o ran y targed, a hynny'n bennaf oherwydd y costau system gyfan sy'n gysylltiedig â rheoli dibyniaeth.

Monitro adweithiau niweidiol i gyffuriau:

Ymarfer disgwylidig

Caiff y Cynllun Cerdyn Melyn ei redeg gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Meddygol (MHRA) a'r Comisiwn Meddyginiaethau Dynol (CHM), ac fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am sgil-ffeithiau tybiedig meddyginiaeth neu adweithiau niweidiol i feddyginiaeth. Mae'r cynllun hwn yn hollbwysig o ran helpu'r MHRA i fonitro diogelwch y meddyginiaethau a'r brechlynau sydd ar y farchnad. Dangosodd gwaith y Comisiwn Archwilio yn 1998 lefelau isel o adroddiadau am adweithiau andwyol i gyffuriau yng Nghymru ac nid yw'r duedd hon wedi gwella. Mae'r AWMSG wedi cytuno y byddai adroddiadau Cerdyn Melyn yn cael eu defnyddio fel dull o wneud cymariaethau lleol ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn mae YCC Cymru wedi datblygu rhaglen addysg sydd ar gael i feddygon teulu a byrddau iechyd. Dengys [Atodiad 4: Arddangosyn 42](#) arferion da o ran hyrwyddo a gwella adroddiadau.

Ar waith?

x

Rhagor o wybodaeth

Dengys [Atodiad 4: Arddangosyn 39](#) fod adroddiadau am adweithiau niweidiol i gyffuriau y Bwrdd Iechyd wedi lleihau rhwng 2010-11 a 2011-12, gan adlewyrchu'r duedd o leihad ledled Cymru (gweler [Atodiad 4: Arddangosyn 40](#)). Dengys [Atodiad 4: Arddangosyn 41](#) nifer yr adroddiadau am adweithiau niweidiol i gyffuriau o ffynonellau cymunedol, gan y bwrdd iechyd. Mae'r sefyllfa leol hon yn bodoli er gwaethaf hyfforddiant rheolaidd i staff, penodiad Pencampwyr Cerdyn Melyn, a gweithgaredd gan gr p diogelwch meddyginiaeth. Fel rhan o'i ddull strategol o wella rhagnodi gofal sylfaenol bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei adroddiadau am adweithiau niweidiol i gyffuriau, a dylai ystyried pa adnoddau sydd angen eu neilltuo er mwyn gwella'r sefyllfa bresennol.

Gwastraff cyffuriau		
Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod cyfanswm cost cyffuriau a wastreffir yn £50 miliwn bob blwyddyn.	✓/x	Yn strategol, caiff gwastraff ei gydnabod fel maes pwysig. Yn ddiweddar ymunodd y Bwrdd Iechyd â'r ymgyrch genedlaethol i leihau gwastraff. Gan dybio bod lefelau gwastraff yn gyson ledled Cymru, amcangyfrifwn fod cost cyffuriau a wastreffir yn y Bwrdd Iechyd yn £8.5 miliwn. Pe gallai'r Bwrdd Iechyd leihau hyn 50 y cant byddai modd arbed £4.25 miliwn (Atodiad 5: Arddangosyn 43).
Mae gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth am lefelau gwastraff meddyginiaethau, er enghraifft, cynhaliwyd archwiliadau.	✓/x	Gwnaethpwyd rhai amcangyfrifon o wastraff ond yn gyffredinol cydnabyddir na fu'n bosibl amcangyfrif yn gywir gyfanswm y meddyginiaethau a wastreffir.
Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol i leihau gwastraff, er enghraifft, drwy ysgogi rheoli meddyginiaethau ar ddechrau'r broses dosbarthu meddyginiaeth.	✓/x	Gwnaethpwyd rhywfaint o waith yn y gymuned gan ddefnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol i helpu i leihau gwastraff ee, presgripsiynau amlroddadwy, adolygiadau o'r defnydd o feddyginiaethau; prin yw'r dystiolaeth o'i effaith hyd yma.

Gwastraff cyffuriau		
Ymarfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae ymgyrchoedd lleol i leihau gwastraff meddyginiaethau ar waith a chaiff eu heffeithiolrwydd ei fonitro.	✓/x	<p>Cyflwynodd tîm cymorth rhagnodi lleol Castell-nedd Port Talbot, ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fenter i wella'r broses o reoli meddyginiaethau mewn lleoliadau gofal cartref. Yn ogystal ag arwain at nifer o fanteision o ran ansawdd a diogelwch i gleifion, un o amcanion y cynllun oedd nodi gwastraff a hyrwyddo rhagnodi cost-effeithiol.</p> <p>Cynhaliodd rhwydwaith cymunedol Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr ymarfer bach wedi'i anelu at leihau gwastraff meddyginiaethau yn sgil presgripsiynau amlroddadwy dros gyfnod o wythnos codi ymwybyddiaeth ddwys o wastraff meddyginiaeth ymysg cleifion a staff mewn un Practis meddyg teulu. Caiff canlyniadau'r peilot hwn eu rhannu rhwng pob practis sy'n rhan o'r rhwydwaith hwnnw.</p> <p>Mae'r ddwy esiampl uchod yn enghreifftiau o arfer da ond nid yw'n glir beth yw'r potensial i ymestyn y dull hwn ar draws y Bwrdd Iechyd.</p>
Cynorthwyo meddygon teulu i wella trefniadau ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy.	✓/x	<p>Ar ddiwedd 2011, rhoddodd y Bwrdd Iechyd ei gefnogaeth i'r practisau meddygon teulu hynny a oedd eisiau tynnu'n ôl o gynlluniau rheoli presgripsiynau amlroddadwy gyda fferyllwyr cymunedol. Roedd hyn yn dilyn pryderon yn deillio o'r cynlluniau hyn ynghylch diogelwch cleifion a gwastraff.</p>

Atodiad 1

Crynodeb o arbedion posibl

Mae'r atodiad hwn yn rhoi crynodeb o arbedion posibl, wedi'u nodi ar sail perfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd yn erbyn ystod o ddangosyddion rhagnodi (gweler [Atodiad 3](#)). Dengys y tabl isod sail y cyfrifiadau arbedion a ddefnyddiwyd.

Dangosydd	Sail y cyfrifiadau arbedion a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn
Cyfraddau rhagnodi generig	<p>Mae'r chwarter gorau o bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn cyflawni lefelau rhagnodi generig o 85 y cant. Mae rhai cyffuriau brand (fel Ventolin a Zapain) yn cael eu rhagnodi mewn symiau mawr ac yn rhatach na'r cyffuriau cyffredinol cyfatebol ar hyn o bryd. Yn dibynnu ar y gymysgedd o achosion gall practisau meddygon teulu fod â mwy neu lai o botensial i sicrhau arbedion yn y maes hwn.</p> <p>Er mwyn lleihau effaith amrywiad datblygwyd basged o gyffuriau a ragnodir yn gyffredin a chyffuriau generig cyfatebol er mwyn nodi arbedion y gellir eu cyflawni drwy wella rhagnodi generig.</p> <p>Cyfrifwyd y perfformiad ar sail ymddygiad rhagnodi rhwng Mawrth 2013 a Mai 2013 wedi'i allosod ar gyfer un flwyddyn. Yna mae'r arbedion yn seiliedig ar y gwahaniaeth mewn pris rhwng y cyffur generig a'r cyffur patent ar gyfer y cyfnod hwnnw.</p>
Cyffuriau a nodwyd fel rhai sy'n llai addas i'w rhagnodi	<p>Mae'r arbedion hyn yn seiliedig ar leihau cyfanswm y gwariant 50 y cant, gan gydnabod yr ymdrech barhaus a'r rhaglen addysg y gall fod eu hangen er mwyn newid arferion rhagnodwyr unigol.</p>
Basged gyffuriau nas argymhellir gan NICE	<p>Mae'r arbedion hyn yn seiliedig ar leihau cyfanswm y gwariant 50 y cant, gan gydnabod yr ymdrech barhaus a'r rhaglen addysg y gall fod eu hangen er mwyn newid arferion rhagnodwyr unigol.</p>
Rhagnodi gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd	<p>Mae'r arbedion wedi'u cyfrifo ar sail lleihau'r ganran o orchuddion gwrthficrobaidd a ragnodir mewn gofal sylfaenol i lefel y bwrdd iechyd sy'n perfformio orau.</p>
Atchwanegiadau bwyd (Bwydo drwy Lymeidiau)	<p>Cyfrifwyd yr arbedion ar sail lleihau'r gwariant presennol i gost gyfartalog fesul eitem y bwrdd iechyd sy'n perfformio orau.</p>

Dangosydd	Sail y cyfrifiadau arbedion a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn
Dangosyddion rhagnodi cenedlaethol	Mae'r arbedion wedi'u cyfrifo ar sail y ffaith bod byrddau iechyd yn cyflawni perfformiad y chwarter gorau o bractisau meddygon teulu.

Crynodeb o arbedion posibl

Ardal	Arbedion
Gwella rhagnodi generig	£367,000
Cyffuriau sy'n llai addas i'w rhagnodi	£202,000
Basged gyffuriau nas argymhellir gan NICE	£54,000
Rheoli clwyfau ac atchwanegiadau bwyd	
Gorchuddion clwyfau gwrthficrobaidd	£91,000
Atchwanegiadau bwyd	£183,000
